



Eich llais chi mewn | Your voice in health
iechyd a gofal | and social care

Cyflwyniad ysgrifenedig gan Llais i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mehefin 2025

Cynnwys

Ymateb ysgrifenedig gan Llais i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol	3
1. Sefydlu sefydliad dibynadwy sy'n canolbwyntio ar bobl	4
2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol	12
3. Darparu eiriolaeth cwynion annibynnol	25
4. Troi mewnwelediad yn ddylanwad ac effaith	30
5. Edrych Ymlaen: aeddfedrwydd, cydweithio ac effaith	33
Atodiadau	38

Cyflwyniad ysgrifenedig gan Llais i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Llais yw'r corff statudol annibynnol a sefydlwyd ym mis Ebrill 2023 gan Lywodraeth Cymru i gryfhau llais y cyhoedd mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cyflwyniad hwn yn amlinellu sut rydym wedi gosod sylfeini cryf yn ein datblygiad cynnar ac yn adeiladu momentwm yn ein hymgysylltiad, ein dylanwad a'n heffaith. Mae'n tynnu sylw at ble rydym wedi canolbwyntio a ble byddwn yn canolbwyntio yn y dyfodol.

Mae'r cyflwyniad wedi'i strwythuro o amgylch 5 thema allweddol, pob un yn cyd-fynd â'n swyddogaethau a'n gwerthoedd statudol:

- 1. Sefydlu sefydliad dibynadwy sy'n canolbwyntio ar bobl** – sut rydym wedi strwythuro Llais fel corff cenedlaethol gydag annibyniaeth ac uniondeb, gan gynnwys sut rydym yn gweithio gydag eraill ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol.
- 2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol** – ein gwaith i wrando ar, ymgysylltu â, a chynrychioli pob person a chymuned sy'n byw yng Nghymru.
- 3. Darparu eiriolaeth cwynion annibynnol** – ein swyddogaeth eiriolaeth cwynion a sut mae hyn yn ategu rhannau eraill o'n gwaith.
- 4. Troi mewnwelediad yn ddylanwad ac effaith** – sut rydym yn datblygu swyddogaethau a systemau mewnwelediad sy'n sbarduno effaith, gan gynnwys data, tystiolaeth a chyflwyno ein system rheoli perthynas â chwsmeriaid (CRM).
- 5. Edrych Ymlaen: aeddfedrwydd, cydweithio ac effaith** – ein blaenoriaethau a beth nesaf.

1. Sefydlu sefydliad dibynadwy sy'n canolbwyntio ar bobl

Llais yw Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2023 o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, i **gynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol**.

Fe wnaethon ni ddisodli'r Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau) ac rydym yn parhau i adeiladu ar eu hetifeddiaeth falch, gan dynnu ar eu cysylltiad dwfn â chymunedau a'u hymrwymiad i lais pobl mewn gofal iechyd.

Mae ein cylch gwaith bellach yn cynnwys gofal cymdeithasol, sy'n gofyn am ddulliau newydd, ond mae'r ethos hwnnw o sefyll ochr yn ochr â phobl, adlewyrchu eu barn a chynrychioli eu buddiannau yn parhau i fod yn ganolog i'n sefydliad.

Fel corff statudol annibynnol, rydym yn gweithio i sicrhau bod lleisiau pobl a chymunedau yn cael eu clywed, heb ofn na ffafr, ac yn helpu i lunio gwasanaethau ledled Cymru. Mae ein hannibyniaeth yn ddiogelwch ac yn gryfder. Mae'n atgyfnerthu ein hygyrdd, yn meithrin ymddiriedaeth, ac yn ein galluogi i herio'n adeiladol a chynrychioli pobl ag uniondeb.

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i geisio barn pobl ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, cynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff y GIG, awdurdodau lleol ac eraill, a chefnogi unigolion i wneud cynwion pan fydd pethau'n mynd o chwith. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn sicrhau bod profiadau go iawn yn llywio sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu darparu a'u gwella.

Mae Llais yn atebol i Weinidogion Cymru drwy fframwaith llywodraethu cyffredin ar gyfer cyrff hyd fraich, a gynlluniwyd i gefnogi a galluogi ein hannibyniaeth. Mae hyn yn cynnwys [Dogfen Fframwaith](#) a [Llythyr Cylch Gwaith](#) blynyddol. Mae'r rhain yn nodi disgwyliadau ar gyfer ein rôl fel corff sector cyhoeddus, ein perfformiad, a'n perthynas â Llywodraeth Cymru.

Ein Gweinidog Noddi yw Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, ac mae ein Cadeirydd yn atebol yn uniongyrchol iddo am berfformiad y Bwrdd wrth gyflawni ei gyfrifoldebau diffiniedig.

1. Sefydliu sefydliad dibynadwy sy'n canolbwyntio ar bobl

Ein Prif Swyddog Gweithredol, Alyson Thomas, yw Swyddog Cyfrifyddu Llais ac mae'n gyfrifol am arweinyddiaeth, gweithrediadau a stiwardiaeth ariannol y sefydliad o ddydd i ddydd.

Rydym yn cael ein llywodraethu gan Fwrdd sy'n cynnwys cadeirydd anweithredol a dirprwy gadeirydd anweithredol, a 6 aelod anweithredol ychwanegol. Penodir i'r holl rolau hyn drwy'r prosesau Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru. Ein Prif Weithredwr yw'r unig aelod gweithredol o'r Bwrdd.

Mae aelod cyswllt heb bleidlais hefyd yn ymuno â'r Bwrdd, sy'n dod â safbwynt staff i'r Bwrdd. Gyda'i gilydd, maent yn darparu cyfeiriad strategol, sicrwydd a goruchwyliaeth. Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys strwythurau cefnogol y sefydliad, ar gael yn ein map Perthynas Sefydliadol.

Aelodau presennol Bwrdd Llais yw:

Yr Athro Medwin Hughes	Cadeirydd
Grace Quantock	Dirprwy Gadeirydd
Alyson Thomas	Prif Weithredwr
Bamidele Adenipekun	Aelod anweithredol
Jack Evershed	Aelod anweithredol
Karen Lewis	Aelod anweithredol
Dr Rajan Madhok	Aelod anweithredol
Jason Smith	Aelod anweithredol
Swydd Wag	Aelod anweithredol
Mwoyo Makuto	Aelod Cyswllt (heb bleidlais)



1. Adeiladu sefydliad dibynadwy sy'n canolbwyntio ar bobl drwy wrando a phartneriaeth



Adeiladu sefydliad dibynadwy sy'n canolbwyntio ar bobl drwy wrando a phartneriaeth

Ers ei lansio ym mis Ebrill 2023, mae Llais wedi gweithio i adeiladu sefydliad cenedlaethol dibynadwy sydd wedi'i wreiddio ym marn a phrofiadau pobl ledled Cymru. Yn ein 100 diwrnod cyntaf, gwrandawom ar gymunedau, staff a phartneriaid i ddeall beth mae pobl ei eisiau gennym ni.

Dywedodd pobl wrthym eu bod nhw eisiau:

- Llais cryf, annibynnol i siarad drostyn nhw
- Mwy o gyfleoedd i helpu i lunio gwasanaethau
- Sefydliad sy'n weladwy, yn gynhwysol, ac yn hygyrch
- Cymorth i lywio gwasanaethau, yn enwedig pan fydd pethau'n mynd o chwith
- Tystiolaeth bod eu llais yn arwain at newid.

Y negeseuon hyn a luniodd bopeth rydyn ni wedi'i adeiladu: ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, ein blaenoriaethau strategol, a'n ffyrdd o weithio. Fe wnaethon nhw hefyd hysbysu ein [Cynllun Strategol 2024–2027](#), [Cynlluniau Busnes](#) Blynnyddol, [fframwaith ymddygiadau](#), a ffyrdd o weithio

Ein cenhadaeth yw gwrando a gwneud i leisiau pobl gyfrif ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

1. Adeiladu sefydliad dibynadwy sy'n canolbwyntio ar bobl drwy wrando a phartneriaeth

Ein 5 blaenoriaeth strategol (2024–27):



Rydym yn chwarae rhan unigryw: nid rheoleiddiwr ydym, ond llais annibynnol i bobl, gan weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i sbarduno newid.

Rydym eisoes wedi gweithio gyda dros 1,000 o sefydliadau a grwpiau cymunedol ac wedi meithrin partneriaethau cryf gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gweithrediaeth y GIG, Awdurdodau Lleol, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, swyddfeydd y Comisiynwyr a llawer o rai eraill. Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi dysgu a rennir a dulliau ar y cyd o wella gofal.

Mae ein gwaith ochr yn ochr ag ystod eang o sefydliadau trydydd sector, yn genedlaethol ac yn lleol, yn helpu i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan, ac yn gysylltiedig â chymunedau sy'n profi'r rhwystrau mwyaf i gael eu clywed.

1. Adeiladu sefydliad dibynadwy sy'n canolbwyntio ar bobl drwy wrando a phartneriaeth



Diwylliant mewnol a datblygu'r gweithlu

Trosglwyddodd staff y mudiad Cyngor Iechyd Cymuned blaenorol i Llais o'r GIG o dan drefniadau arddull TUPE, gan helpu i sicrhau parhad gwybodaeth, perthnasoedd a phrofiad lleol ar draws holl ranbarthau Cymru.

Mae symud i un sefydliad annibynnol gyda chylch gwaith ehangach wedi golygu newidiadau mawr, gan gynnwys:

- Adeiladu trefniadau corfforaethol newydd o'r dechrau (e.e. cyllid, AD, TG)
- Datblygu ein gwerthoedd sefydliadol a'n safonau ymddygiad ein hunain, gan gefnogi diwylliant cyffredin
- Datblygu ffyrdd cyson o weithio ledled Cymru
- Ehangu ein ffocws i gynnwys gofal cymdeithasol.

1. Adeiladu sefydliad dibynadwy sy'n canolbwyntio ar bobl drwy wrando a phartneriaeth

Rydym wedi gwneud cynnydd ond rydym hefyd wedi wynebu heriau, fel:

- Creu, gwerthuso a recriwtio ar gyfer rolau newydd, unigryw
- Arfogi ein pobl, trwy ddysgu a datblygu, i gyflawni ein cylch gwaith ehangach fel corff cyhoeddus annibynnol
- Salwch hirdymor a thimau dan straen
- Yr angen am systemau a seilwaith digidol newydd
- Gweithredu mewn tirwedd ariannol heriol, ochr yn ochr â gweddill y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru.

Mae ein timau wedi'u lleoli mewn 10 lleoliad ledled Cymru, gyda chysylltiadau cryf â rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Mae gan Llais 107 o swyddi staff wedi'u hariannu (gyda 17 yn wag ar hyn o bryd) a 164 o wirfoddolwyr gweithredol. Rydym yn parhau i addasu wrth i ni ddysgu mwy am ble gallwn gael yr effaith fwyaf.

Strwythur y bwrdd ac atebolrwydd cyhoeddus

Mae ein Bwrdd amrywiol yn darparu cyfeiriad strategol, her ac atebolrwydd. Cynhelir cyfarfodydd y bwrdd yn gyhoeddus ar draws 7 rhanbarth Cymru. Mae hyn yn helpu i wneud ein llywodraethu a'n prosesau gwneud penderfyniadau yn weladwy ac wedi'u gwreiddio mewn cymunedau lleol.

Rydym yn cyhoeddi manylion, papurau a dolenni'r holl gyfarfodydd ymlaen llaw, ac yn annog aelodau'r cyhoedd yn weithredol i fynychu a chyflwyno cwestiynau. Yn ogystal â gwneud papurau ein Bwrdd yn ddwyieithog, rydym yn archwilio defnyddio deallusrwydd artiffisial i wneud ein cyfarfodydd a'n deunyddiau yn fwy hygyrch a chynhwysol, fel y gall mwy o bobl ymgysylltu â'n gwaith a'i ddeall yn well.

1. Adeiladu sefydliad dibynadwy sy'n canolbwyntio ar bobl drwy wrando a phartneriaeth

Rydym yn cryfhau ein Bwrdd drwy:

- Recriwtio parhaus
- Cynnig cyfle drwy'r Rhaglen Aelodau Bwrdd Uchelgeisiol i wella amrywiaeth, fel rhan o'n hymrwymiad i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru
- Ychwanegu arbenigedd mewn meysydd fel digidol a chyllid.

Rydym wedi ychwanegu aelodau annibynnol at ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) sydd ag arbenigedd mewn digidol, seiber, a chyllid i lenwi bylchau profiad ein haelodau presennol.

Er bod rhai swyddi gwag aelodau gweithredol ac anweithredol wedi cymryd amser i'w llenwi, mae hyn yn parhau i fod yn ffocws allweddol, ac rydym yn rhagweld Bwrdd wedi'i gyfansoddi'n llawn cyn bo hir.

Llywodraethu a sicrwydd ariannol

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio arian cyhoeddus Cymru yn effeithiol, yn dryloyw ac yn gyfrifol er mwyn cynyddu ein heffaith i'r eithaf.

Mae ein fframwaith llywodraethu wedi'i ddatblygu yn unol â **Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru**, wedi'i gefnogi gan Ddogfen Fframwaith gyhoeddedig, Rheolau Sefydlog, Cynllun Dirprwyo, a dogfennau llywodraethu a rheoli allweddol eraill.



1. Adeiladu sefydliad dibynadwy sy'n canolbwyntio ar bobl drwy wrando a phartneriaeth



Mae ein model llywodraethu yn cynnwys:

- Ein Bwrdd
- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gweithredol, a Phwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth ac Amodau Gwasanaeth, dan gadeiryddiaeth aelodau anweithredol y Bwrdd
- Fframweithiau, strwythurau a phrosesau gwneud penderfyniadau clir ar gyfer rheolaeth ariannol, rheoli risg, monitro perfformiad a chydymffurfiaeth
- Amserlen gyhoeddedig o bapurau a dogfennau'r Bwrdd.

Rydym wedi caffael gwasanaeth archwilio mewnol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Yn ystod 2023-2025 rhoddodd y rhaglen archwiliadau mewnol asesiad sicrwydd rhesymol inni. Derbyniodd archwiliad diweddar ar reolaeth gyllidebol a rheolaeth ariannol asesiad sicrwydd sylweddol.

Archwiliodd Archwilio Cymru ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/2024 yn annibynnol. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ddiamod ac nid oedd ganddo ddim i'w adrodd o dan yr adrannau busnes gweithredol parhaus.

Mae hyn yn rhoi sicrwydd cryf o'n llywodraethiant a'n rheolaethau ariannol.

I Llais, nid dim ond cydymffurfio yw llywodraethu; mae'n galluogi effaith, ymddiriedaeth a gwerth i bobl Cymru.

2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws ieched a gofal cymdeithasol

Llais cenedlaethol ac effaith strategol

Ers ein sefydlu, mae dros **70,000 o bobl** wedi ymgysylltu â ni drwy ddigwyddiadau, arolygon a gweithgareddau allgymorth cymunedol. Dydyn ni ddim yn gwrando yn unig – rydyn ni'n **gweithredu ar yr hyn rydyn ni'n ei glywed**.

Mae gennym hawl statudol a gyflwynwyd gan **y Ddeddf** i wneud **cynrychioliadau** pan nad yw gwasanaethau'n diwallu anghenion pobl. Rhaid i'r GIG ac awdurdodau lleol ystyried y rhain a dweud wrthym pa gamau maen nhw wedi'u cymryd.

Ers ein sefydlu, rydym wedi gwneud dros 800 o gynrychioliadau ar draws amrywiaeth o faterion, gan gynnwys mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG, gofal mamolaeth, a rhyddhau o'r ysbyty. Rydym yn blaenoriaethu cynrychioliadau sy'n adlewyrchu pryder eang neu lle mae angen gweithredu ar frys i wella profiadau pobl.

Yn 2025, byddwn yn cyflwyno **safonau newydd** i wella sut rydym yn gwneud sylwadau ac yn dilyn i fyny ar gynrychioliadau. Rydyn ni'n gwybod nad yw'n ddigon codi problemau – mae pobl eisiau gweld beth sydd wedi newid.

Yn y dyfodol, credwn fod lle i weithio'n agosach gyda Pherfformiad a Gwellu'r GIG i olrhain a dilyn ymatebion i sylwadau, gan helpu i sicrhau bod lleisiau pobl yn parhau i lunio gwasanaethau gwell, nid yn unig mewn egwyddor, ond yn ymarferol.

Clywed gan bobl wrth iddyn nhw ddefnyddio gwasanaethau

Rydym hefyd wedi dilyn y [Cod Ymarfer ar Fynediad i Safleoedd](#) i ymweld â lleoliadau lle darperir gwasanaethau ieched a chymdeithasol i glywed gan bobl sy'n derbyn y gwasanaethau hynny. Hyd yn hyn, rydym wedi gwneud hyn **261 o weithiau** i glywed gan bobl mewn amser real (213 ieched, 26 gofal cymdeithasol, 22 ieched a gofal cymdeithasol).

2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol

Rydym am gynyddu nifer y lleoliadau gofal cymdeithasol rydym yn ymweld â nhw. Fodd bynnag, rhaid ystyried sawl agwedd ychwanegol wrth ymweld â rhai lleoliadau gofal er mwyn sicrhau bod gan bawb gyfle i gael eu llais wedi'u clywed yn ddiogel. Mae hyn yn gofyn am ddatblygiad ein staff a'n gwirfoddolwyr, a'n ffyrdd o weithio. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid fel Age Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, a Gofal Cymdeithasol Cymru yn y maes datblygu hwn.



2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol

Yr hyn rydyn ni'n ei glywed gan bobl

Ar draws ein gwaith ymgysylltu, y pryderon mwyaf cyffredin a glywn gan bobl yw:

- **Mynediad at ofal sylfaenol:** anodd cael apwyntiadau, cyfathrebu gwael
- **Gofal iechyd meddwl a niwroddatblygiadol:** oedi a bylchau
- **Gofal brys:** arosiadau hir, gorlenwi, oedi ambiwlansys
- **Amseroedd aros:** yn enwedig ar gyfer orthopedig, gynaeoleg, clyw a gofal llygaid
- **Gofal mamolaeth:** profiadau anghyson a chefnogaeth ôl-enedigol
- **Rhyddhau o'r ysbyty:** prosesau brysiog, cefnogaeth wael i ofalwyr
- **Trafnidiaeth:** rhwystrau mawr i gael mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig
- **Cydlynu systemau:** mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu hanfon o gwmpas heb fawr o ofal cydgysylltiedig

Themâu sy'n dod i'r amlwg

Mae pryderon yn tyfu ynghylch gofal hunaniaeth rhywedd, gwasanaethau sy'n gyfeillgar i bobl niwroamrywiol, mynediad at ddeintyddiaeth, a chynnwys gofalwyr yn fwy ystyrlon.

Mae pobl hefyd wedi dweud wrthym beth sy'n gweithio'n dda:

- Staff ymroddedig
- Cyfathrebu clir
- Gofal cydgysylltiedig mewn rhai ardaloedd
- Cymorth cymunedol a gwasanaethau symudol newydd

Pan fydd pobl wedi dweud wrthym fod pethau'n gweithio'n dda, rydym wedi sbarduno newid drwy rannu'r



2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws ieched a gofal cymdeithasol



Ymgysylltu lleol a rhanbarthol

Rydym yn dilyn [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru](#) i arwain ein hymgysylltiad, ac rydym yn cysylltu â phobl yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol drwy:

- **Llais Lleol:** ymgysylltiad manwl mewn cymunedau lleol
- **Fforymau Rhanbarthol:** dod â phobl a phartneriaid ynghyd i siarad am heriau a syniadau ym maes ieched a gofal cymdeithasol
- **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol:** mae ein timau rhanbarthol yn cymryd rhan ym mhob un o'r 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ledled Cymru, gan ddod â phrofiad byw pobl yn uniongyrchol i gynllunio integredig ar gyfer ieched a gofal cymdeithasol.
- **Prosiectau thematig** ym mhob rhanbarth, gan gynnwys ar ofal canser, nyrsio ysgol, dementia, a phrofiadau gofalwyr.

Cefnogodd ein Tîm Mewnwelediadau ac Ymgysylltu Cenedlaethol y tîm lleol i siarad â dros 500 o bobl am eu profiadau o wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Datgelodd y straeon a glywsom ofal tosturiol a meysydd o bryder dwfn. Fe wnaethon ni rannu'r mewnwelediadau hyn mewn [adroddiad mawr](#), gan gyfrannu at yr Adolygiad Annibynnol parhaus a dylanwadu ar gamau gweithredu lleol a chenedlaethol.

Mae ein hadroddiad, a drafodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Senedd, yn dangos sut y gall a sut y mae'n rhaid i brofiad bywyd lunio gofal mwy diogel a thosturiol.

2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol

Ymgysylltu ac ymgyrchoedd ar lefel genedlaethol

Ar sail Cymru gyfan, rydym wedi hyrwyddo ein *Sgwrs Genedlaethol* mewn digwyddiadau fel **Sioe Frenhinol Cymru**, yr **Eisteddfod Genedlaethol**, **Pride Cymru**, a **Ffair Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig**.

Mae enghreifftiau o waith cenedlaethol yn cynnwys:

Cafodd ein prosiect Cymru gyfan ar [Cael gofal iechyd brys ac argyfwng](#) ei sbarduno gan bryderon o gymunedau lleol a phartneriaid ynghylch gofal coridorau a phwysau ar y system. Clywsom gan fwy na 700 o bobl drwy ymweliadau, arolwg ar-lein, a grwpiau ffocws.

Fe wnaethon ni gydweithio â Chomisiwn Bevan a'r Sefydliad Gwella Iechyd i lansio'r ymgyrch "Rheolau Gwirion". Gofynnodd hyn i staff a'r cyhoedd pa reolau neu brosesau sy'n rhwystro gofal gwell. Clywsom gan dros 780 o bobl fel rhan o'r ymgyrch Rheolau Gwirion. Cyhoeddir y canfyddiadau yn Haf 2025.



2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws iechedd a gofal cymdeithasol

Cefnogi llais y cyhoedd mewn newid gwasanaeth

Pan fydd gwasanaethau iechedd neu ofal cymdeithasol eisiau gwneud newidiadau i'w gwasanaethau, mae'n bwysig bod y bobl a'r cymunedau a allai gael eu heffeithio yn cael eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf.

Yn wahanol i fodel y Cyngorau Iechyd Cymuned blaenorol, nid oes gofyn i Llais gymryd rhan weithredol ym mhob newid arfaethedig i wasanaethau iechedd a gofal cymdeithasol. O dan y gofynion presennol, mae'r ddyletswydd i ymgysylltu â phobl a'u cynnwys yn gorwedd yn uniongyrchol ar gyrrff y GIG ac awdurdodau lleol.

Rydym yn cymryd rhan weithredol lle mae angen clywed lleisiau pobl.

Lle bo'n briodol, rydym yn gwneud sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a glywn ac yn cefnogi pobl i godi eu pryderon eu hunain. Mae hyn yn cefnogi ein blaenoriaeth strategol i **wthio am wasanaethau sy'n diwallu anghenion pawb**.

Enghreifftiau:

Adolygiad o'r Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys: Fe wnaethon ni gydweithio'n agos â'r rhai a arweiniodd y newid gwasanaeth i ymestyn y trefniadau ar gyfer ymgysylltu â phobl fel y gallai mwy o bobl ddweud eu dweud mewn cyfnodau allweddol. Fe wnaethon ni hefyd herio agweddau ar ymgysylltu â'r cyhoedd ac eglurder y wybodaeth sy'n cael ei rhannu oherwydd ni all cyfranogiad ystyrlon ddigwydd heb gyfathrebu clir ac agored.

Gwasanaeth Meddyg Teulu Talacharn: Fe wnaethon ni weithio ochr yn ochr â'r gymuned i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r fideo byr hwn yn cipio'r daith honno o safbwyntiau'r rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, gan ddangos sut y gall cyfranogiad ystyrlon lunio dyfodol gwasanaethau: [Meddygfa Talacharn](#)

2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws ieched a gofal cymdeithasol

Dylanwadu ar bolisi

Rydym wedi rhannu'r hyn a glywn gyda llunwyr polisi ac eraill pan fyddant yn ceisio barn ar gynlluniau neu gynigion ar gyfer ieched a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rydym wedi ymateb i **38 o ymgynghoriadau cenedlaethol** ac wedi cyflwyno tystiolaeth i ymholiadau ar faterion allweddol fel:

- Gwasanaethau meddyg teulu
- Gofal trawsffiniol
- Rhyddhau o'r ysbyty
- Cod ymarfer niwroamrywiol
- Gofal brys a gofal deintyddol
- Cyfiawnder data a defnyddio data personol.

Rydym hefyd yn cyhoeddi datganiadau safbwynt sydd wedi'u gwreiddio mewn profiad y cyhoedd.

Deintyddiaeth: Argyfwng gofal deintyddol yng Nghymru: Mae Llais yn galw am weithredu ar frys i sicrhau mynediad teg i bawb

Targedau GIG Cymru newydd: Mae targedau newydd GIG Cymru yn cael eu croesawu; yn bwysicaf oll rhaid i bobl a chymunedau deimlo newid yn gyflym

Mae'r rhain yn helpu i sicrhau bod lleisiau pobl yn cyfrannu at sgysiau cenedlaethol ac yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.



2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws iechedd a gofal cymdeithasol

Cyrraedd lleisiau heb gynrychiolaeth ddigonol

Fel rhan o'n hymrwymiad i degwch a chynhwysiant, rydym wedi gweithio gydag ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol, cyrff statudol, a sefydliadau cydraddoldeb, i gyrraedd pobl y mae eu lleisiau'n aml yn cael eu tangynrychioli mewn sgysiau iechedd a gofal cymdeithasol.

- Cymunedau ethnig lleiafrifol
- Cymunedau byddar
- Pobl ifanc
- Gofalwyr
- Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Rydym yn defnyddio fideos, digwyddiadau a phartneriaethau **dan arweiniad y gymuned** er mwyn sicrhau bod lleisiau'n cael eu clywed mewn ffyrdd sy'n barchus, yn hygyrch ac yn briodol yn ddiwylliannol.

Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol a lleol gan gynnwys Uwchgynhadledd Creu Cymru Wrth-hiliol, Ffair Iechyd Cymunedau Lleiafrifol Ethnig, a sgysiau 'Chai a Sgwrs' rhanbarthol, gan ein helpu i glywed gan bobl yn uniongyrchol mewn lleoliadau sy'n teimlo'n hygyrch ac yn groesawgar.

Fe wnaethon ni gydweithio â phartneriaid sy'n gweithio gyda chymunedau duon ynglŷn â'u hiechedd meddwl i ddeall profiadau pobl a chodi eu lleisiau. Gweler y [fideo byr](#).

Fe wnaethon ni hefyd gyd-gynhyrchu [ail fideo gyda phobl ifanc](#), yn canolbwyntio ar wasanaethau iechedd meddwl.

2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws ieched a gofal cymdeithasol

Deall y bobl rydyn ni'n clywed ganddyn nhw

Rydym yn gwella sut rydym yn cofnodi ac yn deall data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant – gan weithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru, a diweddarau ein system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid (CRM) i ganfod bylchau fel y gallwn dargedu ein gweithgareddau allgymorth yn well.

Yn 2025/2026, rydym yn blaenoriaethu integreiddio meysydd amrywiaeth i'n system CRM, gan ein helpu i olrhain gyda phwy rydym yn ymgysylltu, ble mae bylchau'n parhau, a pha gamau sydd eu hangen i sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed a'i ddeall.

Cynhwysiant digidol

I gefnogi ein blaenoriaeth strategol i helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw, rydym wedi canolbwyntio ar gynhwysiant digidol drwy ymuno â Chynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, llofnodi'r siarter cynhwysiant digidol, partneru ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar grŵp Profiad Cleifion a'r Cyhoedd i rannu barn pobl ar ddylunio a datblygu Ap GIG Cymru, a chefnogi trafodaethau Llywodraeth Cymru ynghylch MedTech, Deallusrwydd Artiffisial, a Safonau Byw Digidol Gofynnol posibl yn y dyfodol.



2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol

Gwirfoddoli gyda Llais

Mae ein rhwydwaith gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth ein helpu i gyrraedd mwy o bobl ac adeiladu cysylltiadau lleol dibynadwy ar draws ein cymunedau.

Lansiwyd [Strategaeth Gwirfoddoli](#) newydd gennym yn 2024. Ers mis Ebrill 2023:

- Mae **315** o wirfoddolwyr wedi cefnogi ein gwaith
- Mae dros **8,750 awr** o amser gwirfoddol wedi'i chyflawni
- Mae cyfleoedd newydd a hyblyg wedi cael eu cyflwyno i gyd-fynd ag amser a sgiliau pobl.

Mae'r fideos hyn sy'n cynnwys ein gwirfoddolwyr yn cynnig cipolwg ar sut beth yw bod yn rhan o Llais a'r gwahaniaeth maen nhw'n helpu i'w wneud: [Sut beth yw gwirfoddoli gyda Llais](#)



2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol

Ymwybyddiaeth a gwelededd

Mae gan Llais ddyletswydd statudol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'n swyddogaethau a sicrhau bod pobl ledled Cymru yn gwybod sut i gael mynediad at ein gwasanaethau. Mae'r ddyletswydd hon hefyd wedi'i gosod ar gyrff y GIG ac Awdurdodau Lleol, gan gydnabod y cyfrifoldeb a rennir i sicrhau bod pobl yn deall eu hawliau a sut y gall eu lleisiau ddylanwadu ar wasanaethau iechedd a gofal cymdeithasol. Rydym yn codi ymwybyddiaeth drwy:

- Bosteri, taflenni ac allgymorth
- Cyfryngau cymdeithasol a sylw yn y cyfryngau (186 o weithiau a soniwyd amdanom yn y cyfryngau yn 2024-2025)
- Partneriaethau ac ymgyrchoedd taledig (e.e. hysbysebion bysiau, radio)
- Presenoldeb digidol cynyddol (ymweliadau â gwefannau, e-gylchlythyrau).

Mae'r cymysgedd hwn o sianeli wedi ein helpu i feithrin cydnabyddiaeth o Llais fel corff llais y dinesydd yng Nghymru, gan ei gwneud hi'n haws i bobl rannu eu profiadau, cymryd rhan mewn prosiectau, a cheisio cymorth trwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion.

Rydym yn adolygu ein dull o weithredu i wneud yn siŵr ein bod yn cyrraedd **pobl iau, wledig, a phobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.**



2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol

Ein hymrwymiad i'r Iaith Gymraeg

Rydym wedi cymryd camau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â Safonau'r Iaith Gymraeg, ac rydym yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru am genedl ddwyieithog drwy Gymraeg 2050 a'r fframwaith Mwy na Geiriau.

- Fe wnaethon ni gwblhau hunanasesiad mewnol yn erbyn Safonau'r Iaith Gymraeg a datblygu cynllun gweithredu i wella sut rydym yn cyflawni ac yn rhagori ar ein dyletswyddau.
- Rydym yn cynnig gwasanaethau dwyieithog ar draws ein sianeli ac yn cefnogi defnydd o'r Iaith Gymraeg yn ein timau. Mae dros 40% o'n staff yn gallu siarad a deall Cymraeg llafar, ac rydym yn annog mwy o staff i ddysgu.
- Rydym wedi adolygu ein dull recriwtio ac yn cymryd camau i gryfhau ein presenoldeb a'n diwylliant Cymraeg.
- Fe wnaethon ni sefydlu Gweithgor Iaith Gymraeg fewnol, sy'n cynnwys staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg. Mae'r grŵp yn rhannu syniadau ar sut y gallwn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn weithredol yn ein gwaith o ddydd i ddydd, meithrin diwylliant dwyieithog ar draws Llais, a meithrin hyder ymhlith cydweithwyr i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn eu rolau.



2. Codi lleisiau pobl a'u cymunedau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol

Straeon pobl

Rydym yn rhannu mwy o straeon bywyd go iawn i ddod â phrofiadau pobl yn fyw ac i thynnu sylw at yr hyn sydd angen newid. Bydd hyn yn tyfu yn y flwyddyn nesaf.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dechrau rhannu mwy o'r mewnwelediadau pwerus hyn, gan gynnwys [Stori Frank ac Anne](#) am lywio gwasanaethau dementia, neu stori [Ally John](#) am gael cymorth ar gyfer iechyd meddwl ei mab. Rydym am adeiladu ar y dull hwn, gan greu mwy o gyfleoedd i bobl rannu eu profiadau mewn ffyrdd sy'n hygyrch, yn ystyrlon ac effeithiol. Bydd hyn yn rhan bwysig o'n gwaith ymgysylltu, eiriolaeth a dylanwadu yn y flwyddyn nesaf.



3. Darparu eiriolaeth cwynion annibynnol

Ein dull ni

Mae helpu pobl i godi pryderon pan fydd gofal yn mynd o chwith yn rhan allweddol o'n rôl.

Mae ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion yn:

- Esbonio sut mae prosesau cwynion y GIG a gofal cymdeithasol yn gweithio
- Helpu a chefnogi pobl i leisio eu pryderon drwy ysgrifennu llythyrau, llenwi ffurflenni a mynychu cyfarfodydd
- Cynnig cefnogaeth hyblyg sy'n addas i anghenion unigol
- Gweithio mewn ffordd gyfrinachol, sy'n wybodus am drawma, ac sy'n canolbwyntio ar y person.




3. Darparu eiriolaeth cwynion annibynnol

Galw ac amrywiad rhanbarthol

Ers mis Ebrill 2023, rydym wedi ymdrin â:

- 6,343 o ymholiadau a chwynion
 - 2,973 o ymholiadau unigol
 - 3,370 o achosion eiriolaeth cwynion (2,550 iechyd | 820 gofal cymdeithasol).

Mae'r galw am ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion ar ei uchaf yn ein rhanbarthau Gwent, Gogledd Cymru, a Gorllewin Cymru. Er bod rhywfaint o hyn yn adlewyrchu maint y boblogaeth yn y rhanbarthau hyn, rydym yn archwilio hyn ymhellach i weld a yw hyn hefyd yn adlewyrchu ymwybyddiaeth, problemau gwasanaeth, neu'r ddau.



Y pryderon y mae pobl yn eu codi

Mae'r pryderon y mae pobl yn eu codi yn aml yn adlewyrchu heriau dwfn ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

3. Darparu eiriolaeth cwynion annibynnol

Ym maes gofal iechyd, mae problemau cyffredin yn cynnwys:

- Arosiadau hir am fynediad at apwyntiadau meddyg teulu ac atgyfeiriadau arbenigol
- Diagnosis a fethwyd neu a ohiriwyd, weithiau gyda chanlyniadau difrifol
- Cynllunio rhyddhau ysbyty anniogel
- Methiannau mewn cyfathrebu, rhwng gwasanaethau a chyda unigolion
- Profiadau mamolaeth a gofal brys trallodus
- Diffyg canllawiau clir ar gwynion
- Straen emosiynol ar unigolion a theuluoedd.

Ym maes gofal cymdeithasol, mae pryderon yn cynnwys:

- Cefnogaeth annigonol mewn cartrefi gofal, yn enwedig ar ddiwedd oes
- Gwasanaethau dryslyd neu anghydlynol
- Gwahaniaethu a diffyg ymddiriedaeth, gan gynnwys honiadau o gael eich camliwio neu eich gorfodi gan wasanaethau
- Amseroedd aros hir am gymorth iechyd meddwl plant
- Bylchau mewn cymorth i oedolion ag anghenion iechyd meddwl
- Gofid emosiynol a achosir gan geisio sicrhau gofal diogel, tosturiol a chyson.

Cymhlethdod cynyddol a'n hymateb

Rydym yn cefnogi **achosion mwy cymhleth, aml-asiantaeth**, gan gynnwys pobl ag anghenion cyfathrebu ychwanegol.

I gefnogi'r gwaith hwn ac ymateb i'r cymhlethdod cynyddol:

- Fe wnaethon ni greu rôl **Pennaeth Eiriolaeth Cwynion** i arwain gwelliannau i wasanaethau. Mae'r rhaglen waith hon wedi'i chynllunio i sicrhau bod gan ein tîm y wybodaeth, yr offer a'r gefnogaeth gywir i ymdopi â chymhlethdod cynyddol y materion rydyn ni'n eu gweld, tra hefyd yn darparu gwasanaeth tosturiol o ansawdd uchel i'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi.
- Fe wnaethon ni lansio **eiriolwr cwynion canser arbenigol**, mewn partneriaeth â **Tenovus**, i gefnogi pobl â chanser i godi eu pryderon.

3. Darparu eiriolaeth cwynion annibynnol

Ehangu mynediad i'n gwasanaeth

Rydym yn datblygu dealltwriaeth gliriach o ble mae ein hatgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth cwynion yn dod. Rydym yn hyrwyddo ein gwasanaeth drwy:

- Leoliadau cymunedol (llyfrgelloedd, digwyddiadau iechyd, grwpiau cymorth)
- Atgyfeiriadau o ddigwyddiadau ymgysylltu
- Deunyddiau hygyrch mewn iaith glir
- Partneriaid statudol a chymunedol.

Mae **cyfyngiadau ar bwy y gallwn ei gefnogi**, oherwydd rheolau statudol. Er enghraifft:

- Gallwn gefnogi cwynion y GIG gan blant a phobl ifanc—ond nid y rhai sydd dan ofal cymdeithasol
- Gallwn gefnogi pobl **sy'n hunan-ariannu gofal mewn gwasanaethau cymdeithasol rheoleiddiedig** – ond **nid pobl sy'n hunan-ariannu gofal iechyd preifat**.

Gall y ffiniau hyn fod yn ddryslyd i'r cyhoedd a staff. Rydym yn codi hyn gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gefnogi mynediad a chyfrifoldeb cliriach ar draws y system ar gyfer mynd i'r afael â phryderon.

Defnyddio mewnwelediadau eiriolaeth i wella gwasanaethau

Mae ein gwaith eiriolaeth cwynion yn aml yn datgelu problemau ehangach yn y system. Rydym yn gweithio i gysylltu achosion eiriolaeth unigol â gwella gwasanaethau a newid polisi ehangach.

3. Darparu eiriolaeth cwynion annibynnol

Enghreifftiau:

- Arweiniodd cwyn ym Mhowys am fynediad at wasanaethau rhywedd at ddarparu gwasanaethau'n lleol drwy feddygon teulu
- Arweiniodd cwyn am argyfwng meddygol yn gysylltiedig â meddyg teulu at hyfforddiant staff ac adolygiad o brotocolau lleol

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut y gall eiriolaeth bersonol sbarduno gwelliant systemig, a pham rydym wedi ymrwymo i ddyfnhau'r cysylltiadau rhwng ein gwaith eiriolaeth cwynion, ein mewnwelediadau, a'n dylanwad.



4. Troi mewnwelediad yn ddylanwad

Adeiladu systemau cryf y tu ôl i straeon pwerus

O'r dechrau, roedden ni'n gwybod **nad yw straeon pobl yn unig yn ddigon** – mae angen y systemau a'r dystiolaeth gywir arnom ni hefyd i'w cefnogi.

Rydym yn parhau i ddatblygu'r offer, y prosesau a'r dysgu cywir er mwyn:

- Gwranddo'n dda
- Cefnogi'r hyn a glywn
- Dadansoddi'n glir
- Defnyddio'r wybodaeth i ddylanwadu ar benderfyniadau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym wedi cyflwyno system **Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid (CRM) genedlaethol** i olrhain a dadansoddi ein holl waith ymgysylltu, eiriolaeth a chynrychiolaeth. Mae'n ein helpu i weld:

- Yr hyn mae pobl ledled Cymru yn ei ddweud wrthym
- Ble mae'r pryderon mwyaf
- Sut rydyn ni'n ymateb.

Er bod y system yn dal i gael ei datblygu, rydym yn:

- **Hyfforddi staff** ac adeiladu safonau cyffredin
- Rhedeg **gwiriadau ansawdd data a grwpiau "uwch-ddefnyddwyr"**
- Cefnogi timau i'w ddefnyddio'n dda ac yn hyderus.

Mae adeiladu'r system hon yn cymryd amser, arbenigedd, a mewnbwn parhaus gan staff. Rydym yn cydbwyso hyn yn ofalus â'r angen i barhau â'n **gweithgaredd rheng flaen**.

Rydym hefyd yn sicrhau bod y system CRM yn:

- Ddiogel a sicr
- Wedi'i adeiladu o amgylch llywodraethu data clir
- Cydymffurfio'n llawn â safonau preifatrwydd a chaniatâd.

4. Troi mewnwelediad yn ddylanwad

Defnyddio mewnwelediad i ddylanwadu ar wasanaethau

Rydym yn cyfuno mewnwelediad meintiol ac ansoddol fwyfwy i adrodd stori fwy cyflawn. Mae hyn yn cynnwys:

- Dadansoddiad thematig o bryderon sy'n codi dro ar ôl tro (e.e. mynediad at feddygon teulu, gofal mamolaeth)
- Mewnwelediadau eiriolaeth cwynion yn bwydo i mewn i gynrychioliadau ehangach
- Astudiaethau achos a straeon fideo i dynnu sylw at brofiadau byw
- Gwahaniaethau rhanbarthol yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgysylltiad lleol a chenedlaethol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda **Pherfformiad a Gwella** GIG Cymru i:

Ddeall yn well pa ddata y mae'r cyhoedd eisiau ei weld (e.e. amseroedd aros, canlyniadau).

Archwilio rhannu data ar y cyd drwy'r Fframwaith Profiad Pobl.

Rydym nawr yn edrych i adlewyrchu'r gwaith hwn mewn **gofal cymdeithasol**, lle mae systemau data wedi'u datblygu llai. Rydym wedi dechrau sgysiau cynnar gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, ac eraill i wella sut mae profiadau pobl yn cael eu cofnodi a'u defnyddio.



4. Troi mewnwelediad yn ddylanwad

Tyfu ein swyddogaeth mewnwelediad

Mae ein camau nesaf yn cynnwys:

Gwella sut rydym **yn categoreiddio/grwpio a disgrifio problemau** yn y system CRM.

Galluogi **dadansoddi tueddiadau** a chysylltu ymgysylltu, eiriolaeth cwynion, a gweithredu.

Creu **adroddiadau wedi'u teilwra** ar gyfer y GIG, awdurdodau lleol, a'r llywodraeth.

Archwilio rhannu mewnwelediad yn fwy rheolaidd a **chyhoeddus** fel y gall pobl weld sut mae eu llais yn gwneud gwahaniaeth.

Drwy gyfuno profiadau bywyd go iawn, a fynegir yng ngeiriau pobl eu hunain â data ehangach a thrwy ymgorffori trin data cyfrifol drwy gydol ein gwaith, rydym am gryfhau ymhellach bŵer lleisiau pobl wrth lywio a dylanwadu ar ddylunio, datblygu a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn barhaus i bawb yng Nghymru.



5. Edrych ymlaen: aeddfedrwydd, cydweithio ac effaith

Ein ffocws ar gyfer y dyfodol

Wrth i Llais symud ymlaen, ein nod yw **cryfhau sut rydym yn cefnogi lleisiau pobl i gael eu clywed**, yn enwedig y rhai sydd yn aml yn cael eu tangynrychioli. Rydym eisiau:

- Gwneud cynnwys y cyhoedd yn fwy ystyrlon a chynhwysol
- Datblygu systemau mwy craff a thystiolaeth gryfach
- Meithrin partneriaethau dyfnach ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol
- Buddsoddi yn ein pobl, ein hoffer a'n harweinyddiaeth.

Prosiectau ymgysylltu cenedlaethol – llais i ddylanwad

Rydym yn canolbwyntio ar 2 brosiect ymgysylltu mawr Gymru gyfan eleni. Maent yn cynrychioli newid sylweddol yn y ffordd rydym yn gwrando ar bobl ledled Cymru ac yn gweithio gyda nhw:

1. Hawliau, disgwyliadau a chyfrifoldebau

Sgwrs genedlaethol ar yr hyn y dylai pobl ei ddisgwyl gan wasanaethau ieuchyd a gofal. Mae'n archwilio:

- Hawliau pobl
- Eu disgwyliadau
- Cyfrifoldebau a rennir rhwng y cyhoedd a gwasanaethau.

Bydd hyn yn arwain at fframwaith ymarferol ar gyfer gwella sut mae gwasanaethau'n cyfathrebu, yn gwrando ac yn gweithredu.

2. Cael gofal a chymorth drwy Hybiau Gofal Cymunedol Integredig

Byddwn yn clywed gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cydgysylltiedig lleol i ddeall:

- Mynediad ac argaeledd
- Dewisiadau digidol
- Pa mor llyfn y caiff gofal ei gydlyn

Rydym eisiau i'r mewnwelediadau hyn helpu i lunio cynllunio a gwella gwasanaethau yn y dyfodol.

5. Edrych ymlaen: aeddfedrwydd, cydweithio ac effaith

Yn ddiweddarach yn 2025, byddwn hefyd yn cynnal ein **huwchgynhadledd Lleisiau dros Newid** gyntaf, digwyddiad cenedlaethol i:

- Rannu profiadau byw
- Cyflwyno canfyddiadau ein prosiect
- Dod â phobl a gwneuthurwyr penderfyniadau ynghyd i ddylanwadu ar ddylunio a gwella darpariaeth gwasanaethau.

Cryfhau pŵer cymunedol a llais lleol

Ar yr un pryd, rydym yn canolbwyntio ar adeiladu cymunedau cryfach drwy'r ffordd rydym yn ymgysylltu â phobl ac yn cefnogi eu cyfranogiad gweithredol yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn meithrin perthnasoedd hirdymor gyda grwpiau fel:

- Fforymau gofalwyr
- Grwpiau cleifion meddygon teulu
- Defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.

Rydym yn ymgorffori **cydraddoldeb a gwrth-hilioldeb** ym mhob ymgysylltiad cenedlaethol ac yn sicrhau bod ein gwirfoddolwyr yn helpu i gasglu adborth lleol mewn ffyrdd ystyrlon.

Rydym hefyd yn gwella sut rydym yn olrhain **data amrywiaeth** i'n helpu i sicrhau ein bod yn clywed gan bawb.

Ehangu ein rôl mewn digidol a data

Mae pobl eisiau data clir ar sut mae eu gwasanaethau'n perfformio.

Dyna pam rydyn ni'n:

- Buddsoddi yn ein system CRM a'n dadansoddeg
- Cyfuno cwynion, eiriolaeth ac adborth arolygon i roi darlun cyflawn
- Gweithio gyda Pherfformiad a Gwella'r GIG i rannu data defnyddiol mewn ffyrdd y gall pobl eu deall a'u defnyddio.

5. Edrych ymlaen: aeddfedrwydd, cydweithio ac effaith

Rydym am ddeall yn well beth mae pobl eisiau ei wybod, sut maen nhw eisiau iddo edrych, a'r ffordd orau o'i ddarparu ar lefelau cenedlaethol a lleol.

Cynyddu ein cyrhaeddiad mewn gofal cymdeithasol

Rydym am ddyfnhau ein ffocws ar gefnogi pobl i gael llais cryfach mewn gofal cymdeithasol. Er bod ein rôl yn cwmpasu'r ddau sector, mae ein hetifeddiaeth a'n systemau wedi'u hen sefydlu ym maes iechyd, felly rydym bellach yn ehangu ein dealltwriaeth a'n cyrhaeddiad ym maes gofal cymdeithasol yn gynaliadwy ac yn bwrpasol. Eleni:

- Bydd pob rhanbarth yn cynnal **digwyddiadau gwranddo yn 2025–2026**
- Byddwn yn cynnal **Uwchgynhadleddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol rhanbarthol**
- Yn genedlaethol, rydym yn partneru â sefydliadau fel Gofal Cymdeithasol Cymru ac ADSS Cymru i gynyddu ein gwelededd a'n dylanwad.



5. Edrych ymlaen: aeddfedrwydd, cydweithio ac effaith

Cryfhau atebolrwydd a gwella gwasanaethau

Yn dilyn cyflwyno dyletswyddau ansawdd a didwylledd ar gyfer y GIG yng Nghymru, byddwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r hyn a glywn gan bobl i ddeall a yw'r dyletswyddau hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac ystyrlon ym mhrofiad pobl o ofal y GIG, a sut.

Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i weithio gyda'r GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol i gefnogi eu dysgu, taflu goleuni ar fylchau, a defnyddio ein llais annibynnol i alw am welliant.

Ni yw'r sefydliad sy'n cynnal **Partneriaeth Llais Mamolaeth a Newyddenedigol (MNVP) Cymru**, sy'n cefnogi rhwydwaith o leisiau lleol sy'n helpu i lunio gofal mamolaeth ledled Cymru. Mae hwn yn **fodel newydd** i Llais, a byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwn o hyn i feddwl a oes lle i ymestyn hyn i feysydd eraill yn y dyfodol.

Rydym yn gweithio i wneud ein dolenni adborth yn gryfach, fel y gall pobl weld sut y gwnaeth eu llais wahaniaeth, boed yn lleol neu'n genedlaethol. Rydyn ni eisiau i bobl weld beth sy'n digwydd pan maen nhw'n siarad. Dyna pam rydyn ni'n cyflwyno mwy o:

- Straeon digidol
- Grynodebau rhyngweithiol
- Ddiweddariadau cymunedol, wedi'u teilwra i ardaloedd lleol.

Rydym am wneud mwy i rannu ein mewnwelediadau'n rheolaidd a gweithio gyda phartneriaid fel y **Comisiynydd Pobl Hŷn** a'r **Comisiynydd Plant** i helpu i godi lleisiau pobl a dylanwadu ar bolisi ehangach er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf drwy ddefnyddio ein hadnoddau cyfunol i'r effaith orau.

5. Edrych ymlaen: aeddfedrwydd, cydweithio ac effaith

Mesur ein heffaith


Rydym yn datblygu ffyrdd gwell o olrhain:

- **Cyrhaeddiad:** Faint o bobl rydyn ni'n ymgysylltu â nhw
- **Dylanwad:** Ble rydym yn llunio penderfyniadau
- **Canlyniadau:** Beth sy'n newid o ganlyniad.


Byddwn yn defnyddio dangosyddion meintiol (e.e. lefelau ymgysylltu, cyfraddau ymateb) a dulliau ansoddol (e.e. astudiaethau achos, gwerthusiad a gynhyrchwyd ar y cyd) i asesu pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein pwrpas.



Atodiad 1: Ein blwyddyn mewn niferoedd



Atodiad 2: Llywodraethu Llais



Atodiad 3: map Perthynas Sefydliadol

